# Cyngor Tref Dinbych Denbigh Town Council – Cynllun Lles 2026/27

## Adolygwyd: 29.07.2026

## Dyddiad adolygu nesaf: 29.07.2027

### Cyflwyniad

Sefydlwyd Cyngor Tref Dinbych yn ffurfiol ar 1 Ebrill 1974 yn dilyn ad-drefnu gan y llywodraeth. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gan Ddinbych ei hawdurdod lleol ei hun, sef Cyngor Bwrdeistref Dinbych, a sefydlwyd ar 1 Ionawr 1836.

Heddiw, mae Cyngor Tref Dinbych yn cynrychioli buddiannau cymuned Dinbych ac mae'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd sydd wedi'u hethol neu eu cyfethol ac sy'n gwasanaethu'n wirfoddol. Mae'r cynghorwyr yn gweithio ar ran tua 9,000 o drigolion, gan gyfarfod yn rheolaidd i drafod materion megis cynllunio, digwyddiadau cymunedol a gwasanaethau lleol.

Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu fel pont rhwng trigolion a Chyngor Sir Ddinbych, gan anelu at gyflawni gwelliannau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Anogir cyfranogiad y cyhoedd, ac mae croeso i aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd y Cyngor ac, mewn rhai achosion, annerch y Cyngor yn uniongyrchol.

Mae Maer Dinbych, sy'n cael ei ethol yn flynyddol, yn arwain y Cyngor ac yn ymgymryd â dyletswyddau seremonïol, gan gynnwys codi arian ar gyfer elusennau lleol. Mae'r Maer hefyd yn chwarae rhan bwysig yn ddinesig wrth hyrwyddo hunaniaeth Dinbych ac ysbryd cymunedol.

Yn 2025/2026, dyrannodd Cyngor Tref Dinbych **£34,864.50** mewn grantiau i gefnogi sefydliadau lleol, gwyliau a mentrau elusennol, gan helpu i adeiladu cymuned fywiog a chynhwysol.

### Amcanion Cynllun Lles 2026/27

Mae amcanion Cyngor Tref Dinbych ar gyfer 2026/27 wedi'u pennu i gyfrannu at flaenoriaethau strategol Cyngor Sir Ddinbych, blaenoriaethau llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych, a saith Nod Llesiant Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cygor yn mabwysiadu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac yn ymgorffori'r Pum Ffordd o Weithio yn ei weithrediadau a'i benderfyniadau bob dydd.

## **<u>Cymuned Ffyniannus</u>**

Bydd Cyngor Tref Dinbych yn gweithio gyda'i gymuned i wella ffyniant lleol. Bydd y Cyngor yn cefnogi prif sbardun economaidd y rhanbarth — twristiaeth — drwy annog ymwelwyr sy'n gwario'n helaeth, darparu cyllid grant i sefydliadau lleol a chefnogi busnesau lleol. Nod yr ymdrechion hyn yw cynyddu cyfleoedd gwaith a gwella sgiliau'r gymuned. Bydd y Cyngor hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses gynllunio er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

(Blaenoriaethau BGC – Cymuned; Blaenoriaethau Cyngor Sir Ddinbych – Sgiliau, Amgylchedd, Tai, Twf, Llais)

## **<u>Cymuned Gydnerth</u>**

Mae Cyngor Tref Dinbych yn rhoi'r amgylchedd wrth wraidd ei benderfyniadau, yn enwedig mewn materion cynllunio a datblygu. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych a sefydliadau lleol i sicrhau bod seilwaith cefnogol ar waith a bydd yn darparu cymorth ariannol i fentrau amgylcheddol.

(BGC – Cymuned, Lle; Cyngor Sir Ddinbych – Amgylchedd)

## **<u>Cymuned Iachach</u>**

Mae Cyngor Tref Dinbych yn cydweithio â Chyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sefydliadau lleol i wella llesiant corfforol a meddyliol trigolion. Mae cymuned iachach yn creu lle mwy bywiog a deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Mae'r Cyngor yn cefnogi mentrau sy'n galluogi pobl i fwynhau'r amgylchedd naturiol a ffordd o fyw egnïol.

(BGC – Pobl, Cymuned, Lle; Cyngor Sir Ddinbych – Iechyd)

**Cymuned Gyfartal**

Mae Cyngor Tref Dinbych yn cynrychioli poblogaeth amrywiol ac yn darparu llwyfan i bob llais yn y gymuned. Mae'r cynghorwyr yn adlewyrchu amrywiaeth o gefndiroedd ac yn cymryd rhan mewn nifer o sefydliadau allanol. Mae cyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor yn parhau i fod yn agored ac yn hygyrch er mwyn hyrwyddo tryloywder a chynhwysiant.

(BGC – Pobl, Cymuned, Lle; Cyngor Sir Ddinbych – Llais)

**Cymuned Gydlynol**

Mae Dinbych yn gymuned sy'n gyfoethog o ran hunaniaeth a chymeriad. Bydd Cyngor Tref Dinbych yn gweithio i wella golwg leol a chysylltedd, gan annog cydweithredu ymhlith ei gwahanol gymdogaethau. Bydd yn hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol, yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol, ac yn meithrin cysylltiadau byd-eang drwy bartneriaethau â threfi eraill yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

(BGC – Pobl, Cymuned, Lle; Cyngor Sir Ddinbych – Diogel, Tai, Twf, Llais)

**Cymuned o Ddiwylliant Bywiog ac Iaith Gymraeg Ffyniannus**

Mae treftadaeth Dinbych yn destun balchder. Bydd Cyngor Tref Dinbych, sydd wedi'i leoli mewn tref sy'n gyforiog o hanes a diwylliant, yn sicrhau ei bod yn cael ei diogelu a'i hyrwyddo. Gan gydweithio â Chyngor Sir Ddinbych, Cadw a sefydliadau diwylliannol, mae'r Cyngor yn cefnogi'r celfyddydau, crefftau, chwaraeon a'r Gymraeg yn lleol, gan weithio i sicrhau bod yr elfennau hyn yn ffynnu am genedlaethau i ddod.

(Cyngor Sir Ddinbych – Diwylliant)

**<u>Cymuned sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang</u>**

Mae Cyngor Tref Dinbych yn cydnabod ei rôl o ran cyfrannu at lesiant byd-eang. Gyda nifer cynyddol o ymwelwyr rhyngwladol a chysylltiadau diwylliannol cryf, bydd y Cyngor yn parhau i feithrin perthnasoedd rhyngwladol ac yn ystyried effeithiau byd-eang wrth wneud ei benderfyniadau. Mae cynaliadwyedd amgylcheddol er budd cenedlaethau’r dyfodol yn parhau i fod yn bryder allweddol.

(BGC – Lle; Cyngor Sir Ddinbych – Amgylchedd, Llais)

**Mae Cyngor Tref Dinbych yn llais i’r gymuned. Os oes gennych unrhyw safbwyntiau yr hoffech eu dwyn i sylw Cynghorwyr y Dref, cysylltwch â ni drwy:**


Ysgrifennwch atom:

Cyngor Tref Dinbych

Neuadd y Dref

Crown Lane

Dinbych

LL16 3TB

Ffôn: 01745 815 984

E-bost: townclerk@denbightowncouncil.gov.uk neu admin@denbightowncouncil.gov.uk